



Archwilydd Achosion Annibynnol

Cynllun Iaith Gymraeg: 2007

Cyflwyniad

O dan Ddeddf Iaith Gymraeg 1993 mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ddarparu cynllun sy'n gosod allan sut bydd yn darparu'r gwasanaethau hyn yn Gymraeg. Mae'r ddogfen yn darparu manylion o'r Cynllun Iaith Gymraeg a ddarparwyd gan swyddfa'r Archwilydd Achosion Annibynnol.

Wedi derbyn yr egwyddor y caiff y Saesneg a'r Gymraeg eu trin yn gyfartal pan yn cynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, mae cynllun yr Archwilydd Achosion Annibynnol yn gosod allan sut bydd yn gweithredu'r egwyddorion a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, cyn belled â'i fod yn addas i'r amgylchiadau ac yn rhesymol i'w weithredu.

Yn y cynllun hwn, mae'r term cyhoedd yn golygu unigolion, personau cyfreithiol a chyrff corfforedig. Mae'n cynnwys y cyhoedd i gyd, trawsdoriad o'r cyhoedd, ynghyd ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Caiff cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig eu cynnwys o fewn y term "cyhoedd". Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys cynrychiolwyr y Goron, y Llywodraeth na'r Wladwriaeth. O ganlyniad, ni fydd personau sy'n cyflawni gweithgareddau o natur gyhoeddus, er eu bod yn bersonau cyfreithiol, yn dod o fewn yr ystyr *cyhoeddus* pan fyddant yn cyflawni'r gweithgareddau hynny.

Gellir cael mwy o wybodaeth am sgôp a phwrpas cynlluniau Iaith Gymraeg yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg (www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)

Paratowyd y cynllun o dan Adran 21 Ddeddf yr Iaith Gymraeg, ac yn unol â chanllawiau a gyflwynwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, o dan Adran 9 o'r Ddeddf. Daeth i rym ar 20 Chwefror 2007.



Cefndir i'r sefydliad

Mae'r Archwilydd Achosion Annibynnol yn gweithredu fel canolwr os bydd cleientiaid yr Asiantaeth Cynnal Plant, Asiantaeth Cynnal Plant Gogledd Iwerddon, neu'r Asiantaeth Nawdd Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon heb eu trin yn deg neu heb ddelio â'r cwynion mewn modd boddhaol.

Mae'r Archwilydd Achosion Annibynnol hefyd yn gyfrifol am godi materion systematig ac argymhellion gyda'r Asiantaethau a chysylltu â hwy ar lefel uwch i godi ymwybyddiaeth am y gwersi a godir wrth i ni ddelio â chwynion. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae'r Archwilydd Achosion Annibynnol yn cyhoeddi Adroddiad Blyneddol sy'n darparu gwybodaeth ystadegol a phenodol am achosion, ynghyd ag arolwg o'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Asiantaethau.

Cefnogir yr Archwilydd Achosion Annibynnol gan dîm o thua 98 aelod o staff wedi'u lleoli yn Lerpwl sy'n cyflawni gwaith porthio, datrys ac ymchwilio, darparu gwasanaethau ategol a chynnig cymorth o ddydd i ddydd i bobl sydd angen ein gwasanaeth.

Ein manylion cyswllt yw:

The Independent Case Examiner
PO Box 155
Chester
CH99 9SA

Rhif ffôn ar gyfer ymholiadau
(Cyfradd galwadau lleol) **0845 606 0777**

Minicom: **0151 801 888**

Ffacs: **0151 801 8802**

E-bost: ice@ukgov.demon.co.uk

Gwefan: www.archwilyddachosionannibynnol.org.uk

Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaeth

Polisiau a mentrau newydd

Bydd swyddfa'r Archwilydd Achosion Annibynnol yn sicrhau y bydd pob polisi a menter newydd yn defnyddio'r Gymraeg pan yn bosibl gwneud hynny. Hefyd, byddwn yn gweld y fath bolisiau a mentrau fel cyfle i ddod â swyddfa'r Archwilydd Achosion Annibynnol yn agosach i'r nod eithaf o gyfartaledd llwyr rhwng yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae'r camau bydd Swyddfa'r Archwilydd Achosion Annibynnol yn eu cymryd i ddarparu'r gwasanaethau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg wedi eu gosod allan yn fanylach yn ei Chynllun Gweithredu sydd wedi cael ei lunio yn ychwanegol i'r polisi hwn.

Pan fyddwn yn cyfrannu at ddatblygu neu gyflwyno'r polisiau, mentrau, gwasanaeth neu ddeddfwriaeth newydd a gyflwynir gan sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r cynllun hwn.

Cyflwyno gwasanaethau

Byddwn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'n gwasanaethau ar gael yn Gymraeg, a byddwn yn hysbysu'r cyhoedd o hynny.

Safon ac ansawdd

Byddwn yn sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg o ansawdd cyfartal a chânt eu darparu o fewn yr un amser.

Delio â'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith

Gohebiaeth ysgrifenedig

Mae Swyddfa'r Archwilydd Achosion annibynnol yn croesawu gohebiaeth gan y cyhoedd yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddant yn sicrhau na fydd gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg yno'i hun yn achosi oedi.

Bydd llythyrau a dderbynnir yn Gymraeg ac sydd angen ymateb yn derbyn ateb yn Gymraeg a bydd yr un egwyddor yn perthyn i unrhyw ohebiaeth yn dilyn ffurfiau eraill o gyswllt p'un ai dros y ffôn, e-bost, y We neu unrhyw gyfrwng cyfathrebu electronig arall, lle bo'r aelod o'r cyhoedd wedi nodi'r dewis hwnnw. Bydd ein targed ar gyfer ymateb i'r llythyrau hyn yr un fath a'n targed, i ymateb i llythyrau wedi eu hysgrifennu yn Saesneg.

Pan fyddwn yn anfon gohebiaeth safonol neu gylchlythyrau at sawl derbynnydd yng Nghymru, bydd yn ddwyieithog oni bai ein bod yn ymwybodol fod pob derbynnydd am ei dderbyn yn Gymraeg neu Saesneg yn unig.

Os bydd rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, byddwn fel arfer yn sicrhau y bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd.

Bydd unrhyw fewnosodiadau a anfonir allan gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, pan yn bosibl.

Bydd unrhyw fewnosodiadau a anfonir allan gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, pan yn bosibl.

Bydd yr uchod yn gymwys i ohebiaeth e-bost ynghyd â gohebiaeth bapur.

Caiff pob gohebiaeth copi caled Cymraeg a anfonir allan ei llofnodi.

Byddwn yn defnyddio system sgorio Bwrdd yr Iaith i adnabod yn wrthrychol unrhyw ohebiaeth safonol neu gylchlythyrau nad oes angen eu cyhoeddi yn Gymraeg, neu'n ddwyieithog (er enghraifft, pan fo'r ohebiaeth yn dechnegol neu'n hir iawn).

Cyfathrebu dros y ffôn

Oherwydd ein lleoliad ni fyddai'n ymarferol i gynnal sgysiau dros y ffôn yn Gymraeg. Fodd bynnag, pan fyddwn yn sefydlu llinellau cymorth, neu ddarpariaethau tebyg i roi gwybodaeth am ein gwasanaethau neu gefnogaeth i'r cyhoedd yng Nghymru fe wnawn ddarparu gwasanaeth Cymraeg. Caiff hwn ei hysbysu ochr yn ochr a'r gwasanaeth Saesneg. Bydd y ddau wasanaeth yn rhannu'r un rhif ffôn.

Cyfarfodydd cyhoeddus

Byddwn yn darparu cyfieithu ar y pryd o Gymraeg i Saesneg yn ein cyfarfodydd cyhoeddus oni bai ein bod wedi sefydlu bydd yr holl gyfranwyr yn debygol o ddefnyddio'r un iaith.

Bydd gwahoddiadau a hysbysiadau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog a byddant naill ai'n nodi bod darpariaethau cyfieithu ar gael neu byddant yn gwahodd y cyhoedd i'n hysbysu o flaen llaw pa iaith yr hoffent ei siarad. Fe hysbyswn y rhai hynny sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus pan fo darpariaethau cyfieithu ar gael, ac annog cyfraniadau drwy'r Gymraeg.

Ein hymarfer cyffredin fydd darparu papurau a gwybodaeth arall ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg, ac i adroddiadau neu bapurau a ddarperir ar ôl cyfarfodydd cyhoeddus gael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg.

Cyfarfodydd eraill gyda'r cyhoedd yng Nghymru

Gan nad oes gennym swyddfeydd wedi eu lleoli yng Nghymru, ni fyddai'n ymarferol i ni gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ein hwyneb cyhoeddus

Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysu

Bydd y deunyddiau a ddefnyddiwn yng Nghymru ar gyfer cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, arddangos a hysbysebu yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os bydd rhaid cynhyrchu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd, a bydd y ddau fersiwn ar gael ochr yn ochr.

Cyhoeddiadau

Ein hymarferiad arferol fydd cyhoeddi deunyddiau fydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael gyda'i gilydd mewn un dogfen.

Os bydd rhaid cyhoeddi'r fersiwn Cymraeg a'r fersiwn Saesneg ar wahân (er enghraifft, pan fyddai un dogfen yn rhy hir neu'n rhy fawr) bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd, a'n hymarfer arferol fydd sicrhau bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un amser. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir fod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Byddwn yn defnyddio system sgorio Bwrdd yr Iaith Gymraeg i adnabod yn wrthrychol pryd dylai deunyddiau gael eu cyhoeddi mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu fel dogfennau dwyieithog.

Os na fydd dogfen ddwyieithog ar gael yn rhad ac a ddim, ni fydd pris y ddogfen yn ddrytach na phris dogfen uniaith, a bydd pris fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un fath.

Bydd yr uchod hefyd yn gymwys i ddeunyddiau a fydd ar gael yn electronig ar ein gwefan.

Gwefannau

Bydd ein gwefan yn cynnwys tudalennau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a'n hymarfer arferol fydd darparu fersiynau Cymraeg o'r tudalennau interactif ar ein gwefan.

Pan yn dylunio gwefannau newydd, neu ailgynllunio gwefannau sydd eisoes yn bodoli, byddwn yn ystyried Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Pryd bynnag byddwn yn postio cyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefannau, byddwn yn postio'r fersiynau Cymraeg yr un amser os ar gael.

Ffurflenni a deunyddiau egluro cysylltiol

Byddwn yn sicrhau bod pob ffurflen a deunyddiau egluro sydd at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru yn hollol ddwyieithog, yn ddibynnol ar y system sgorio a gyfeirir ati isod, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefannau.

Os bydd rhaid i'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gael eu cyhoeddi ar wahân (er enghraifft, pan fo dogfen unigol yn rhy hir neu'n rhy fawr), bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd, a byddwn yn sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yn hygyrch. Bydd y ddau fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Byddwn yn defnyddio system sgorio Bwrdd yr Iaith Gymraeg i adnabod yn wrthrychol pryd dylai ffurflenni a deunyddiau egluro cysylltiol gael eu cyhoeddi mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu fel dogfennau dwyieithog.

Hunaniaeth gorfforaethol

Byddwn yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru. Bydd ein henw, manylion cyswllt ac unrhyw wybodaeth safonol yn ymddangos mewn Cymraeg a Saesneg ar bob deunydd sy'n dangos ein hunaniaeth gorfforaethol.

Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio a ymddengys mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfrwng tebyg) a ddsberthir gan fwyaf yng Nghymru yn ddwyieithog, neu fel fersiynau ar wahân Cymraeg a Saesneg.

Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd, boed yn fersiynau sengl dwyieithog, neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Bydd unrhyw hysbyseb swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff a geir yng Nghymru yn ddwyieithog.

Datganiadau i'r wasg a chyswllt â'r cyfryngau

Pan fo angen datganiadau i'r wasg Gymreig a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru byddant yn Gymraeg lle bo terfynau amser yn caniatáu.

Gweithredu'r cynllun

Staffio

Nid oes gennym swyddfeydd yng Nghymru. Fodd bynnag, byddwn yn ceisio gwybodaeth am sgiliau Cymraeg bob ymgeisydd swydd a staff presennol.

Recriwtio

Ar gyfer unrhyw swydd sy'n cael cyswllt helaeth a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru byddwn yn ystyried os dylai Cymraeg rhugl fod yn sgil dymunol neu hanfodol, a chaiff hyn ei nodi mewn galluoedd swyddi a hysbysebion.

Hyfforddiant iaith

Byddwn yn cefnogi ac ariannu hyfforddiant i staff, sydd fel rhan o'u dyletswyddau mewn cyswllt helaeth a rheolaidd gyda'r cyhoedd yng Nghymru, a'r rhai hynny sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau. Fe wnawn ganiatáu i staff fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Bydd yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn yn cael eu hystyried fel byddwn yn datblygu, cynllunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Wrth i ni ddatblygu neu gynhyrchu ein systemau Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu byddwn yn ystyried Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog y Bwrdd.

Trefniadau mewnol

Mae gan y mesurau yn y cynllun hwn **awdurdod**, cefnogaeth a chymeradwyaeth llawn ein sefydliad.

Bydd gan rheolwyr y **cyfrifoldeb** dros weithredu'r elfennau hynny o'r cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.

Byddwn yn penodi aelod uwch o staff i gyd-lunio'r gwaith sydd ei angen i gyflwyno, monitro ac adolygu'r cynllun.

Byddwn yn darparu a diweddarau'n barhaol **cynllun gweithredu** y cytunir arni gan y Bwrdd, sy'n gosod allan sut byddwn yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Bydd y cynllun gweithredu yn effeithiol o'r diwrnod y bydd y Cynllun Iaith yn weithredol.

Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn bob targed.

Caiff y cynllun ei **hysbysu** i'n staff, ac i'r cyhoedd yng Nghymru. Caiff ei hysbysu mewn man amlwg ar ein gwefan.

Byddwn yn cynhyrchu **canllawiau desg** neu debyg fel bod ein staff yn ymwybodol o sut i weithredu 'r mesurau o fewn y cynllun.

Byddwn yn cynhyrchu sesiynau **cyfarwyddo a hyfforddi** i'n staff i gynyddu eu hymwybyddiaeth o'r cynllun hwn, ac i egluro sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd.

Byddwn yn sicrhau mai dim ond **cyfieithwyr** hyfforddedig y byddwn yn eu defnyddio wrth gyflwyno'r cynllun hwn.

Caiff **unrhyw ddull cysylltu** gyda'r cyhoedd yng Nghymru, nad yw'r cynllun yn delio'n benodol ag ef ei wneud mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion cyffredinol y cynllun hwn.

Monitro

Byddwn yn monitro ein cynnydd wrth gyflwyno'r cynllun hwn yn erbyn y targedau a osodir allan yn y cynllun gweithredu cysylltiol.

Bydd ein gweithdrefnau monitro ac adrodd presennol yn cyfeirio at ddatblygiadau wrth gyflwyno'r cynllun hwn fel yn addas. Byddwn yn anfon adroddiadau monitro at Fwrdd yr Iaith Gymraeg, pan ofynnir ganddynt, yn amlinellu'r cynnydd wrth gyflwyno'r cynllun hwn.

Adolygu a diwygio'r cynllun

Byddwn yn adolygu'r cynllun o fewn pedair blynedd. Efallai bydd angen i ni adolygu'r cynllun, neu gynnig diwygiadau i'r cynllun hwn, oherwydd newidiadau i'n swyddogaeth, neu i'r amgylchiadau y byddwn yn ymgymryd â'r swyddogaethau hynny, neu am unrhyw resymau eraill. Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cwynion ac awgrymiadau am welliannau

Caiff monitro'r nifer a natur cwynion sy'n ymwneud â'n Cynllun iaith ei gynnwys fel rhan o'n gweithdrefn cwynion bresennol. Bydd y targed ar gyfer clirio cwynion yn ymwneud â'n gwasanaeth Cymraeg yr un fath a bob cwyn arall am ein gwasanaeth.

Mae gan Swyddfa'r Archwiliwr Achosion Annibynnol weithdrefn gwynion mewn grym, fydd yn cynnwys cwynion am ein cynllun. Mae ein taflen ddwyieithog " Swyddfa'r Archwilydd Achosion Annibynnol Ein gwasanaeth a'n safonau" yn darparu manylion o'n gweithdrefn ar sut gall ein cwsmeriaid wneud sylwadau neu awgrymiadau am y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu. Mae'r wybodaeth hefyd ar gael ar ein gwefan yn www.archwilyddachosionannibynnol.org.uk

Dylai cwynion yn ymwneud â'r cynllun hwn neu awgrymiadau am welliannau gael eu cyfeirio at y cyfeiriad a ddarperir yn ein taflen (hefyd yn nhudalen 3 o'r ddogfen hon).

Os bydd rhywun sy'n gwneud cwyn yn parhau'n anfodlon gyda'r ffordd rydym wedi delio â'u cwyn am ein cynllun, mae ganddynt yr hawl i gwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Gellir cael gwybodaeth bellach ar wefan y Bwrdd (ceir manylion ar dudalen 2 o'r ddogfen hon).